

## GRUFFYDD, OWEN (c. 1643 - 1730), bardd a hynafiaethydd

**Enw:** Owen Gruffydd  
**Dyddiad geni:** c. 1643  
**Dyddiad marw:** 1730  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd a hynafiaethydd  
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd  
**Awdur:** Griffith Milwyn Griffiths

Ychydig a wyddys yn bendant am ei fywyd cynnar a'i fuchedd; ganwyd ym mhlwyf Llanystumdwy yn Sir Gaernarfon, ac yn ôl pob tebyg treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn y plwyf hwnnw a'r rhai oddi amgylch. Gwehydd oedd wrth ei alwedigaeth, ac enillodd fri mawr fel bardd. Adnabyddid ef hefyd fel achyddwr.

Cyfansoddodd farddoniaeth i foneddigion y wlad oddi amgylch yn yr hen draddodiad Cymreig, a hefyd ddarnau mwy poblogaidd fel carolau Nadolig. Ceir darnau o'i waith yn *Carolau a Dyriau Duwiol*, 1696, *Blodeu-Gerdd Cymry*, 1759, ac yn *Gwaith Owen Gruffydd* (gol. **O. M. Edwards**), 1904. Ceir llawer o'i waith mewn llawysgrifau yn yr Amgueddfa Brydeinig a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn ei henaint colodd ei olwg, ac ysgrifennai ei gyfeillion ei farddoniaeth drosto.

Claddwyd ef ym mynwent Llanystumdwy 6 Rhagfyr 1730. Canwyd marwnad iddo gan **William Elias**.

### Awdur

Griffith Milwyn Griffiths

### Ffynonellau

- T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)
- Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893)
- T. Parry, *Hanes llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (1944)
- Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)
- Y Geninen*, 1896
- Y Traethodydd*, 1845
- Cell Meudwy, sef Gweithiau Barddonol a Rhyddieithol Ellis Owen, F.A.S. Cefnymeusydd, yn nghyda bywgraphiad a darlun o'r awdwr* (1877)
- Y Llenor*, 1895
- Cofrestr Esgobaeth Bangor yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Owen Gruffydd

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q13130555

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Griffiths, G. M., (1953). GRUFFYDD, OWEN (c. 1643 - 1730), bardd a hynafiaethydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-GRUF-OWE-1643>

Clippwr

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ddiwedd yr  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government